
Trosolwg

Mae'r uned hon yn ymwneud â gwella a chynnal cyflwr y croen gan ddefnyddio amrywiaeth o driniaethau. Ymhlith y triniaethau hyn mae: diblsgio'r croen, cynhesu'r croen, tyniad, tylino'r wyneb, triniaethau masg a defnyddio cynhyrchion ar gyfer yr wyneb. Rhaid llwyddo i roi triniaethau o'r fath i amrywiaeth o gleientiaid â gwahanol fathau o groen, a chyflyrau.

Bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol gydol eich gwaith i gyflawni'r uned hon. Bydd angen i chi hefyd gynnal eich ymddangosiad personol a chyfathrebu'n dda â'r cleient.

Cynnwys yr uned:

- 1 Cynnal dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth wella a chynnal cyflwr wyneb y croen
- 2 Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau'r wyneb â chleientiaid
- 3 Gwella a chynnal cyflwr y croen
- 4 Rhoi cyngor ôl-ofal

SKABTB4W

Darparu triniaeth gofal croen yr wyneb

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynnal dulliau diogel ac effeithiol o weithio wrth wella a chynnal cyflwr croen yr wyneb

- P1 paratoi'r ardal waith yn unol â gofynion cyfreithiol, hylendid a'r driniaeth
- P2 sicrhau fod cyflwr yr amgylchedd yn addas ar gyfer y cleient a'r driniaeth
- P3 sicrhau fod eich hylendid personol, dulliau gwarchod a'ch ymddangosiad yn ateb gofynion derbynol y diwydiant a'r sefydliad
- P4 sicrhau eich bod yn glanhau'r holl offer a'r cyfarpar gan ddefnyddio'r dulliau cywir
- P5 diheintio eich dwylo'n effeithiol cyn rhoi triniaethau'r wyneb
- P6 cynnal arferion derbynol y diwydiant mewn perthynas â hylendid a diogelwch gydol y driniaeth
- P7 gosod eich **cyfarpar** a'ch deunyddiau mewn modd sy'n hwylus ac yn ddiogel eu defnyddio
- P8 sicrhau fod eich osgo a'ch lleoliad eich hun wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf
- P9 cynnal gwedduster a phreifatrwydd y cleient bob amser
- P10 cael gwared â deunyddiau gwastraff yn ddiogel ac yn gywir
- P11 sicrhau fod y driniaeth yn gost effeithiol a'i fod yn cael ei wneud o fewn amser sy'n fasnachol ymarferol
- P12 gadael yr ardal waith mewn cyflwr priodol ar gyfer rhagor o driniaethau
- P13 sicrhau fod cofnodion eich cleient wedi eu diweddarau, eu bod yn gywir, yn rhwydd i'w darllen ac wedi eu harwyddo gan y cleient a'r ymarferydd

Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau'r wyneb â chleientiaid

Rhaid i chi allu:

- P14 ddefnyddio **technegau ymgynghori** mewn modd cwrtais a chyfeillgar er mwyn pennu cynllun triniaeth y cleient
- P15 cael cydsyniad gwybodus, ysgrifenedig wedi'i arwyddo gan y cleient cyn cynnal y gwasanaeth
- P16 gwneud yn siŵr eich bod yn cael cydsyniad rhiant neu warcheidwad ar gyfer plant dan oed cyn unrhyw driniaeth
- P17 gwneud yn siŵr fod rhiant neu warcheidwad yn bresennol gydol y driniaeth ar gyfer plant dan 16 oed
- P18 gofyn cwestiynau addas i'ch cleient i nodi a oes ganddynt unrhyw **wrthrybuddion** mewn perthynas â thriniaethau'r wyneb
- P19 cofnodi atebion eich cleient i'r cwestiynau'n gywir
- P20 annog cleientiaid i ofyn cwestiynau er mwyn gwneud unrhyw bwyntiau'n gliriach
- P21 sefydlu a chofnodi'n gywir trefn gofal croen y cleient ar hyn o bryd
- P22 cynorthwyo'r cleient i gael sefyllfa gyfforddus ac ymlacio ar gyfer y driniaeth

SKABTB4W

Darparu triniaeth gofal croen yr wyneb

- P23 gwneud yn siŵr fod dillad, gwallt ac ategolion eich cleient wedi eu gwarchod yn effeithiol, neu wedi eu tynnu
- P24 glanhau croen y cleient yn effeithiol cyn dadansoddi'r croen
- P25 dadansoddi croen y cleient yn gywir a chofnodi'n gywir y **math o groen** ydyw ac ym mha **gyflwr** y mae'r croen
- P26 cymryd y **camau angenrheidiol** mewn ymateb i unrhyw wrthrybuddion a nodwyd
- P27 sicrhau eich bod yn rhoi cyngor i gleient heb gyfeirio at gyflwr meddygol penodol a heb achosi unrhyw gynnwrf a phryder diangen
- P28 argymhell triniaethau a chynhyrchion addas ar gyfer **math croen** y cleient a'i gyflwr
- P29 cytuno ar y gwasanaeth a'r canlyniadau sy'n dderbyniol gan eich cleient ac sy'n diwallu ei anghenion
- P30 dewis **cynhyrchion** a **chyfarpar addas** ar gyfer y **math o groen** sydd gan y cleient a'i **gyflwr** ar sail canlyniadau dadansoddi'r croen

Gwella a chynnal cyflwr y croen

Rhaid i chi allu:

- P31 defnyddio **cynhyrchion** a **chyfarpar ar gyfer yr wyneb** yn gywir a chan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
- P32 gwneud yn siŵr fod y croen yn lân ac nad oes unrhyw olion o golur arno drwy ddefnyddio technegau glanhau dwfn addas
- P33 defnyddio technegau diblsgio priodol, gan greu cyn lleied o anghysur i'r cleient ag sy'n bosibl
- P34 gwneud yn siŵr fod y croen yn llyfn ac nad oes unrhyw weddillion na chynhyrchion arno drwy ddefnyddio techneg diblsgio sy'n addas ar gyfer **math croen** y cleient a'i **gyflwr**
- P35 defnyddio techneg addas i gynhesu'r croen sy'n berthnasol i anghenion y cleient
- P36 cynnal unrhyw driniaeth angenrheidiol i dynnu pennau duon, yn ôl yr angen, gan beri cyn lleied o anghysur i'r **cleient** ag sy'n bosibl a chan greu cyn lleied o niwed ag sy'n bosibl i'r croen
- P37 defnyddio **cyfrwng tylino** priodol ar gyfer **math croen** y cleient a'i **gyflwr**
- P38 defnyddio ac addasu **technegau tylino** i ddiwallu anghenion y cleient a'r driniaeth y cytunwyd arni
- P39 rhoi **triniaethau masg** ymlaen yn wastad ac yn daclus, gan wneud yn siŵr eich bod wedi gorchuddio'r man sydd i'w drin
- P40 tynnu masgiau ar ôl cyfnod a argymhellir a heb beri unrhyw anghysur i'r cleient
- P41 sicrhau fod y croen yn lân, wedi'i dynhau ac wedi'i leithio'n briodol
- P42 gwneud yn siŵr fod y canlyniad terfynol yn plesio'r cleient a'i fod yn unol â'r cynllun triniaeth y cytunwyd arno

Rhoi cyngor ôl-ofal

SKABTB4W

Darparu triniaeth gofal croen yr wyneb

Rhaid i chi allu:

P43 roi **cyngor** ac argymhellion yn gywir ac yn adeiladol

P44 rhoi cyngor priodol i'ch cleientiaid sy'n benodol i'w hanghenion unigol

SKABTB4W

Darparu triniaeth gofal croen yr wyneb

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Gofynion y sefydliad a'r gofynion cyfreithiol

- K1 eich cyfrifoldebau dan y ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol
- K2 pam na ddylai plant dan oed gael triniaethau heb gydsyniad gwybodus wedi'i arwyddo gan riant neu warcheidwad
- K3 pam ei bod yn bwysig, wrth drin plant dan 16 oed, cael rhiant neu warcheidwad yn bresennol
- K4 ar ba oed y dosberthir unigolyn yn blentyn dan oed a sut y mae hyn yn gwahaniaethu'n genedlaethol
- K5 pwysigrwydd peidio â gwahaniaethu rhwng cleientiaid ag afiechydon ac anabledau, a pham (e.e. Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd)
- K6 arwyddocâd cyfreithiol cael cydsyniad gwybodus i'r driniaeth wedi'i arwyddo gan y cleient
- K7 eich cyfrifoldebau a'ch rhesymau dros gynnal eich hylendid personol, eich diogelwch a'ch ymddangosiad yn unol â gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
- K8 pwysigrwydd storio cofnodion cleientiaid yn gywir mewn perthynas â'r Ddeddf Gwarchod Data
- K9 amseroedd gwasanaeth eich salon ar gyfer triniaethau'r wyneb a phwysigrwydd cwblhau'r broses o'i roi ymlaen o fewn amser sy'n fasnachol ymarferol
- K10 strwythurau prisio'r salon
- K11 sut i lenwi'r cofnodion cleientiaid a ddefnyddir yn eich salon a phwysigrwydd cadw cofnodion o driniaethau a chael llofnodion cleientiaid, a'r rhesymau am hynny

Sut i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol wrth roi triniaethau'r wyneb

Mae angen i chi wybod a deall:

- K12 sut i baratoi'r ardal waith yn effeithiol, paratoi a defnyddio'r cyfarpar a'r deunyddiau ar gyfer trin yr wyneb
- K13 yr amgylchiadau amgylcheddol angenrheidiol ar gyfer rhoi color dydd ymlaen (gan gynnwys goleuo, gwresogi, awyru a chyfforddusrwydd cyffredinol) a pham fod y rhain yn bwysig
- K14 y gwahaniaethau rhwng sterileiddio a diheintio
- K15 dulliau o ddiheintio a chyfarpar sterileiddio
- K16 pwysigrwydd diheintio'r dwylo a'r rhesymau am hyn, a sut i wneud hyn yn effeithiol
- K17 sut i gadw cyfarpar a deunyddiau mewn cyflwr glân a glanwaith
- K18 sut i baratoi eich hun a'ch cleientiaid ar gyfer triniaethau'r wyneb
- K19 sut i osgoi anghysur ac anaf posibl i chi eich hun, a'r risgiau o osod cleientiaid yn anghywir
- K20 sut i archwilio cyfarpar a ddefnyddir ar gyfer triniaethau'r wyneb

SKABTB4W

Darparu triniaeth gofal croen yr wyneb

K21 pam ei bod yn bwysig cynnal safonau hylendid, ac egwyddorion osgoi traws-heintiad

K22 sut i leihau gwastraff yn deillio o driniaethau a chael gwared ohono

K23 y cyflwr y dylech adael yr ardal waith ynddi, a pham fod hyn yn bwysig

Ymgynghori, cynllunio'r driniaeth a pharatoi

Mae angen i chi wybod a deall:

K24 sut i ddefnyddio technegau ymgynghori effeithiol wrth gyfathrebu â chleientiaid o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol, oed, anableddau a rhyw ar gyfer y driniaeth hon

K25 y sgiliau holi a gwranddo y byddwch eu hangen er mwyn cael gwybodaeth

K26 sut i roi cyngor ac argymhellion effeithiol i gleientiaid

K27 sut i ddehongli iaith y corff negyddol a chadarnhaol

K28 pwysigrwydd holi cleientiaid i sefydlu a oes unrhyw wrthrybuddion i driniaethau'r wyneb

K29 pam ei bod yn bwysig cofnodi atebion cleientiaid i'r cwestiynau

K30 pam ei bod yn bwysig annog cleientiaid i ofyn cwestiynau a rhoi amser iddynt wneud hynny

K31 arwyddocâd cyfreithiol holi cleientiaid a chofnodi atebion y cleient

K32 y rhesymau pam ei bod yn bwysig annog cleientiaid â gwrthrybuddion i holi am gyngor meddygol

K33 pwysigrwydd peidio ag enwi gwrthrybuddion penodol wrth gyfeirio cleientiaid at feddyg teulu, a'r rhesymau am hynny

K34 pam ei bod yn bwysig cynnal gwedduster a phreifatrwydd cleient

K35 sut i baratoi cynlluniau triniaeth

K36 sut i baratoi cleient ar gyfer y driniaeth

K37 sut i osod cleientiaid ar gyfer triniaethau'r wyneb

K38 sut i ddadansoddi'r croen

K39 y berthynas rhwng trefn gofal croen y cleient, ei gyflwr presennol a'r goblygiadau ar gyfer y driniaeth

Anatomeg a ffisioleg

Mae angen i chi wybod a deall:

K40 strwythur y croen (h.y. haenau'r epidermis, y dermis, yr haen isgroenol, ffoligl blewyn, bôn y gwallt, y chwarren sebwm, y cyhyr arrector pili, y chwarren chwys, gwythiennau gwaed a lymff a therfynau nerfau synhwyraidd)

K41 swyddogaeth y croen (h.y. sensitifrwydd, rheoli gwres, amsugno, amddiffyn, ysgarthiad, secretiad a chynhyrchu fitamin D)

K42 nodweddion croen a'r mathau o groen sydd gan wahanol grwpiau cleient ethnig

K43 sut mae cyhyrau'r wyneb, y gwddf a'r ysgwyddau'n gweithredu (h.y. frontalis, corrugator, temporalis, orbicularis oculi, levatorlabatis y wefus uwch, orbicularis oris, buccinator, risorius, mentalis, zygomaticus, masseter, gostyngwyr y wefus isaf, sternocleidomastoid, platysma,

SKABTB4W

Darparu triniaeth gofal croen yr wyneb

- trapezius, pectoralis a deltoid)
- K44 esgyrn y pen, y gwddf a gwregys yr ysgwydd, gan gynnwys:
 - K44.1 ar gyfer y benglog: y gwegil, blaen, parwydol, yr arlais, sffenoid, bôn y trwyn
 - K44.2 ar gyfer yr wyneb: sygomatig, mandibl, macsilâu, trwynol, fomer, cogyrnog, y dagrau, y daflod
 - K44.3 ar gyfer y gwddf: fertebrau gyddfol
 - K44.4 ar gyfer gwregys y gwddf: pont yr ysgwydd, palfais, hwmerws
 - K44.5 ar gyfer y frest: sternwm
 - K45 safle esgyrn y pen, yr wyneb, y gwddf, y frest a gwregys yr ysgwydd
 - K46 safle cyhyrau'r wyneb, y gwddf a'r ysgwyddau
 - K47 sut y mae'r broses heneiddio naturiol yn effeithio ar groen yr wyneb a ffyrfer y cyhyrau
 - K48 cynnwys a swyddogaeth gwaed a lymff a'i swyddogaeth yn y broses o wella cyflwr y croen a'r cyhyrau

Gwrthrybuddion

Mae angen i chi wybod a deall:

- K49 y gwrthrybuddion hynny sydd angen eu cyfeirio at feddyg, a pham (e.e. bacteriol - impetigo; firaol - herpes simplecs; ffwngaidd - tinea; anhwylderau meddygol systemig; llid yr amrant, anhwylderau croen a heintiau llygad difrifol; acne, cornwydydd, herpes soster a dafadennau, haint parasitig fel pla llau a chlefyd crafu)
- K50 y gwrthrybuddion hynny sy'n cyfyngu ar driniaeth, a pham (e.e. meinwe craith ddiweddar, ecsema, soriasis, hyper-keratosis, alergeddau croen, briwiau, crafiadau, cleisio, llefrithod)

Triniaethau'r wyneb

Mae angen i chi wybod a deall:

- K51 sut i addasu technegau'r wyneb ar gyfer cleientiaid gwrywaidd a benywaidd
- K52 sut i adnabod y mathau o groen a restrwyd yn y cwmpas
- K53 sut i adnabod y cyflyrau croen canlynol: sensitif, pennau duon, milia, dadhydredig, capilarïau toredig, llinorod, papiwlau, mandyllau agored, gor-bigmentiad, hypo-bigmentiad, dermatosis papulosa nigra, ffug-ffolicwlitis, celoidau, blew mewndyfol
- K54 sut y gall ffactorau amgylcheddol a ffordd o fyw effeithio ar gyflwr y croen
- K55 sut i drin y mathau o groen a'r cyflyrau a restrwyd yn y cwmpas
- K56 triniaethau addas ar gyfer gwahanol fathau o groen a chyflyrau
- K57 pa mor aml yr argymhellir triniaethau
- K58 cwmpas a defnydd y cynhyrchion sydd ar gael ar gyfer triniaethau'r wyneb
- K59 y gwahanol fathau o gynhyrchion croen arbenigol sydd ar gael, a sut i'w defnyddio (e.e. hufenau ar gyfer y llygaid, geliau, balm i'w gwefusau, hufenau ar gyfer y gwddf, cynhyrchion ar gyfer acne)

SKABTB4W

Darparu triniaeth gofal croen yr wyneb

- K60 y rhesymau dros wneud y canlynol a'r manteision o wneud hynny: glanhau'r croen, diblsgio'r croen, tynhau'r croen, cynhesu'r croen, tylino, rhoi masgiau a chynhyrchion gofal croen ymlaen
- K61 y gwahanol fathau o ddyfeisiadau i gynhesu'r croen, a'u heffeithiau
- K62 sut i dynnu pennau duon â llaw yn ddiogel
- K63 y mathau o dechnegau tylino a restrwyd yn y cwmpas, y gwahaniaethau rhyngddynt a sut i'w haddasu i weddu i'r mathau o groen a chyflyrau'r croen yn y cwmpas
- K64 effeithiau technegau tylino ar y croen, y cyhyrau a'r strwythurau gwaelodol
- K65 y mathau o groen sy'n gweddu orau i gyfryngau tylino olew neu hufen
- K66 y gwahanol fathau o fasgiau a'u heffeithiau ar y croen
- K67 y cysylltiadau rhwng amseru triniaeth masg a chyflwr y croen
- K68 sut i adnabod cochni a'r hyn sy'n ei achosi
- K69 gwrthrybuddion posibl all ddigwydd yn ystod triniaeth wyneb a sut i ddelio â nhw (e.e. cochni eithafol, cosi poenus)

Cyngor ôl-ofal i gleientiaid

Mae angen i chi wybod a deall:

- K70 pam ei bod yn bwysig darparu trefn gofal cartref sylfaenol
- K71 cynhyrchion i'w defnyddio gartref a fydd o fudd i'r cleient a'r rhai hynny y dylid eu hosgoi, a pham
- K72 y gwrtheffeithiau all ddigwydd ar ôl triniaethau'r wyneb a pha gyngor i'w roi i gleientiaid
- K73 y bylchau amser a argymhellir ar gyfer triniaethau'r wyneb

SKABTB4W

Darparu triniaeth gofal croen yr wyneb

Gwybodaeth ychwanegol

Cwmpas/Ystod

- 1 Mae **cyfarpar** yn cynnwys:
 - 1.1 golau chwyddhau
 - 1.2 dyfeisiadau cynhesu'r croen
 - 1.3 defnyddiau traul

- 2 **Technegau ymgynghori** yw:
 - 2.1 holi
 - 2.2 gweledol
 - 2.3 â llaw
 - 2.4 cyfeirio at gofnodion y cleient

- 3 **Y mathau o groen** yw:
 - 3.1 seimlyd
 - 3.2 sych
 - 3.3 cyfuniad o'r ddau

- 4 **Cyflyrau croen** yw:
 - 4.1 croen aeddfed
 - 4.2 croen sensitif
 - 4.3 croen dadhydredig

- 5 Dylai **camau angenrheidiol** gynnwys:
 - 5.1 annog y cleient i ofyn am gyngor meddygol
 - 5.2 esbonio pam na ellir cynnal y driniaeth
 - 5.3 addasu'r driniaeth

- 6 **Cynhyrchion ar gyfer yr wyneb** yw:
 - 6.1 cynnyrch tynnu color llygad
 - 6.2 glanweithyddion
 - 6.3 tynhawyr
 - 6.4 diblwgwyr
 - 6.5 lleithyddion
 - 6.6 cynhyrchion arbenigol ar gyfer y croen

- 7 **Cyfyngau tylino** yw:
 - 7.1 olew

SKABTB4W

Darparu triniaeth gofal croen yr wyneb

7.2 hufen

8 **Technegau tylino** yw:

8.1 effleurage

8.2 petrissage

8.3 tapotement

9 **Triniaethau masg** yw:

9.1 caledu

9.2 rhai nad ydynt yn caledu

10 Mae **cyngor** yn cynnwys:

10.1 cynhyrchion ôl-ofal priodol, a sut i'w defnyddio

10.2 osgoi gweithgareddau all achosi gwrtheffeithiau

10.3 y bylchau amser a argymhellir rhwng triniaethau'r wyneb

10.4 trefnau gofal cartref

SKABTB4W

Darparu triniaeth gofal croen yr wyneb

Datblygwyd gan SkillsActive

Fersiwn rhif 1

Dyddiad cymeradwyo Tachwedd 2009

Dyddiad adolygu dangosol Tachwedd 2011

Dilysrwydd Cyfredol

Statws Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol Habia

RCU gwreiddiol BT B4

Galwedigaethau perthnasol Mentrau manwerthu a masnachol; Mentrau gwasanaethu; Galwedigaethau gwasanaeth personol; Trin gwallt a gwasanaethau cysylltiedig

Cyfres/Set Therapi Harddwch 2009

Geiriau Allweddol darparu triniaeth gofal croen yr wyneb